

## Astudiaeth Achos

### *Ian Parri*



Mae gan Ian Parri ei gwmni cyfieithu ei hun yng Ngogledd Cymru ac mae wedi bod yn dilyn cyrsiau Cyfieithu Ôl-radd TILT yn ddiweddar (2 Fodiwl sy'n 30 Credyd yr un). Dyma fe'n sôn sut mae TILT wedi bod o fudd iddo.

#### **A allwch chi roi amlinelliad byr o faes arbenigedd eich cwmni (neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?)**

Rwy'n gweithio ar fy liwt fy hun, gan arbenigo'n benodol ar waith cyfieithu testun ar gyfer meysydd marchnata, datganiadau i'r wasg, ysgrifennu copi a gweithiau llenyddol. Rwy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, er mai cyfieithu i'r Gymraeg y byddaf yn ei wneud y rhan helaethaf o'r amser.

#### **Sut berthynas oedd gennych â'r byd dysgu cyn dilyn y cwrs, ac a yw'r berthynas wedi newid wedyn?**

Ni fu gen i fawr o berthynas ffurfiol â'r byd dysgu ers i mi adael yr ysgol yn 16 oed gyda fy nhystysgrifau Lefel-O yn fy mhoced sawl blwyddyn yn ôl, cyn dyddiau TGAU. Mynychais gyrsiau galwedigaethol rhan-amser amser maith yn ôl, unwaith mewn cemeg, a dro arall mewn newyddiaduraeth ar ôl newid cyfeiriad fy ngyrfa. Roeddwn ar un pryd yn darlithio i'r WEA mewn cyrsiau i grwpiau gwirfoddol ynglŷn â gwneud defnydd o'r cyfryngau torfol. Ond roeddwn wastad yn ceisio addysgu fy hun, ac wedi ymddiddori mewn ieithoedd. Mae fy mhrofiad ar y cwrs TILT wedi cryfhau'r diddordeb hwnnw, ac o bosib wedi cadarnhau bod modd dysgu mwy yn gyflymach mewn awyrgylch academiaidd o'r math.

#### **Pa fudd fyddwch chi neu'ch cwmni yn ei gael o ddilyn y cwrs?**

Rwy'n credu y byddaf yn cael budd nid yn unig oherwydd iddo ddangos i mi fod lle eto i mi wella fel cyfieithydd, ond hefyd nad oes diwedd mewn gwirionedd ar yr hyn y gall rhywun ei ddysgu. Teimlaf y bydd yn fy annog i geisio gwella fy sgiliau'n barhaus. Yn sicr mae wedi rhoi arweiniad i mi ynglŷn â ffyrdd amgen o feddwl am gyfieithiadau cyn eu rhoi ar bapur neu ar sgrin cyfrifiadur.

#### **Sut glywsocch chi am gyrsiau TILT?**

Fel aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, caf fy hysbysu'n rheolaidd am gyrsiau fel TILT sy'n cael eu cynnal.

#### **Pam y bu ichi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun?**

Penderfynais gymryd rhan yn y cynllun oherwydd fy mod yn llwyr ymwybodol nad oeddwn wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol mewn cyfieithu, a bod angen hynny arnaf i. Bydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn annog eu haelodau i fynychu cyrsiau ac i wella eu sgiliau drwy'r amser.

### **Beth oedd y peth gorau am y cwrs y buoch chi arno?**

Y peth gorau am y cwrs oedd ei fod yn llwyddo i gynnal diddordeb wrth godi lefel proffesiynoldeb ei fyfyrwyr. Roedd y patrwm o'i ddilyn yn bennaf ar-lein, ond gydag elfen o sesiynau wyneb yn wyneb ynghlwm ag o, yn hynod addas i fy sefyllfa i a'r oriau i gallaf ymrwymo iddynt.


### **Yn eich barn chi, pa mor bwysig i'r economi yng Nghymru drwyddi draw yw cael cyrsiau wedi'u hariannu'n barod sy'n canolbwyntio ar fusnesau?**

Asgwrn cefn economi Cymru ydy busnesau bach, ond y perygl ydy bod busnesau felly yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny gyda'r tueddiadau a'r datblygiadau diweddaraf oherwydd y pwysau sydd ar eu perchnogion. Ar ben hynny, y math hwnnw o fusnes sy'n bodoli ar arian a enillir o ddydd i ddydd sydd leiaf tebygol o fentro buddsoddi yn yr hyfforddiant angenrheidiol.

### **Pa gyngor fyddai gennych chi i fusnesau neu weithwyr ar eu liwt eu hunain sy'n meddwl dilyn cyrsiau TILT?**

Buaswn yn annog unrhyw un, yn unigolyn neu gwmni, a gaiff y cyfle i ddilyn cwrs TILT i wneud hynny heb feddwl ddwywaith. Mae'r sbardun mae'r cyrsiau yn ei roi i rywun feddwl yn gliriach am ei bwnc yn amhrisiadwy, a chaiff ei gyflwyno mewn modd dealladwy a chartrefol.

Mae TILT yn rhan o'r Rhaglen Dysgu yn y Gweithle, a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Cydgyfeiriart Ewrop yr UE drwy Lywodraeth Cymru. Os hoffwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau eraill a gynigir gan y project, cysylltwch â [s.ghazzali@bangor.ac.uk](mailto:s.ghazzali@bangor.ac.uk) neu ewch ar wefan TILT <http://www.tiltcymru.org.uk/wordpress/bangor/>



**Ian Parri**

Cyfieithu ac Ymgynghori  
Translation & Consultation